

RHEOLIADAU APELIADAU ACADEMAIDD 2026/2027

Teitl: Rheoliadau Apeliadau Academaidd					
Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Disgrifiad o'r Adolygiad	Awdur	Cymeradwywyd gan a'r Dyddiad	Dyddiad Adolygu Nesaf
1.0	Medi 2019	Rhifyn Cyntaf	Siobhan Coakley	QAC/Bwrdd Academaidd 4 Awst 2019	Mehefin 2020
2.0	Medi 2020	Ail Gyhoeddiad	Siobhan Coakley	QAC/Bwrdd Academaidd 3 Mehefin 2020	Mehefin 2021
3.0	Medi 2021	Trydydd Rhifyn	Gwenllian Jones	QAC/Bwrdd Academaidd 19 Mai 2021	Mehefin 2022
4.0	Medi 2022	Pedwerydd Rhifyn	Gwenllian Jones	QAC/Bwrdd Academaidd	Mehefin 2024
5.0	Medi 2024	Pumed Rhifyn	Siobhan Coakley	QAC/Bwrdd Academaidd 26 Mehefin 2024	Mehefin 2025
6.0	Medi 2025	Chweched Rhifyn	Louise Neate/ Niamh Križan	QAC/Bwrdd Academaidd 25 Mehefin 2025	Mehefin 2026
7.0	Medi 2026	Seithfed Rhifyn	Louise Neate/Ni amh Križan	QAC/Bwrdd Academaidd 24 Mehefin 2026	Mehefin 2027

CYNNWYS

ADRAN UN: CYFLWYNIAD.....	2
ADRAN DAU: EGWYDDORION CYFFREDINOL	2
Apeliadau gan drydydd parti	2
Rhagdybio didwylledd ac ymddygiad da	2
Tystiolaeth	3
Apeliadau gan grwpiau	3
Cyfrinachedd.....	4
Tystysgrifau Gradd	4
Apeliadau a chwynion.....	4
Ymddygiad afresymol	5
Cyfeirio at weithdrefnau eraill	5
Baich a safon y prawf	5
Myfyrwyr rhyngwladol	5
Addasiadau rhesymol	5
ADRAN TRI: CAMAU WRTH YMDRIN AG APELIADAU ACADEMAIDD.....	6
Cam 1 - Datrys yn gynnar	6
Cam 2 – Ystyriaeth gan y gyfadran.....	6
Cam 3 – Adolygu’r penderfyniad yng nghan 2	6
ADRAN PEDWAR: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL AR GYFER ADDYSG	
UWCH (OIA).....	6
ADRAN PUMP: MONITRO	6

ADRAN UN: CYFLWYNIAD

- 1.1 Dylid darllen Rheoliadau Apeliadau Academaidd y Brifysgol ar y cyd â'r Gweithdrefnau cysylltiedig, gan gynnwys [Gweithdrefn Apeliadau Academaidd ar gyfer Cyrsiau a Addysgir](#), neu, ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio am radd ymchwil, [Gweithdrefn Apeliadau Academaidd ar gyfer Graddau Ymchwil](#) a'r [Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir](#).
- 1.2 Mae Rheoliadau a Gweithdrefnau Apeliadau Academaidd y Brifysgol yn berthnasol i'r canlynol:
- Myfyrwyr sy'n astudio gyda Phrifysgol De Cymru
 - Myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD). (*D.S. Dylai unrhyw gyfeiriad a wneir at 'gyfadrannau' neu 'gyfadrannau' yn y rheoliadau a'r weithdrefn hefyd gael ei ddarllen fel 'y Coleg'*).
 - Myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol yn sefydliadau partner y Brifysgol.
 - Myfyrwyr sy'n astudio ar leoliadau gwaith, neu sy'n ymgymryd â dysgu yn y gwaith.
 - Myfyrwyr sydd wedi cael caniatâd cymeradwy i fod yn absennol.
 - Prentisiaid. (*D.S. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at 'myfyriwr/myfyrwyr' yn golygu 'prentis/prentisiaid' hefyd. Bydd gwybodaeth am dderbyn a chanlyniad apeliadau academaidd ar gyfer prentisiaid yn cael ei darparu i Ddeon y Gyfadrannau (neu enwebai), a fydd yn hysbysu cyflogwr y prentis.*)
- 1.3 Mae'r Rheoliadau a'r Gweithdrefnau yn caniatáu i fyfyrwyr apelio yn dilyn penderfyniad Bwrdd Asesu Dyfarniadau a Dilyniant, y Pwyllgor Graddau Ymchwil neu Bwyllgor Graddau Ymchwil y Gyfadrannau neu'i bwrdd dilyniant.

ADRAN DAU: EGWYDDORION CYFFREDINOL

Apeliadau gan drydydd parti

- 2.1 Mae'r Brifysgol yn disgwyl y bydd y myfyrwyr eu hunain yn cyflwyno apeliadau. Os bydd trydydd parti yn gofyn am gyflwyno apêl ar ran myfyriwr, rhaid i'r myfyriwr wneud cais ysgrifenedig sy'n cynnwys y rheswm dros y cais, unrhyw dystiolaeth a'u hawdurdodiad ysgrifenedig i'r trydydd parti weithredu ar eu rhan. Yna bydd y cais yn cael ei adolygu gan Bennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu'r Enwebai), a bydd y myfyriwr yn cael penderfyniad o fewn pum niwrnod gwaith.

Rhagdybio didwylledd ac ymddygiad da

- 2.2 Bydd y Rheoliadau'n cael eu cymhwyso'n ddidwyl gan y Brifysgol a bydd unrhyw apêl a gyflwynir gan fyfyrwr yn ddidwyl hefyd. Fel y cyfryw, lle cyflwynir apêl, ni fydd y myfyriwr dan anfantais am gyflwyno'r apêl.
- 2.3 Disgwylir y bydd myfyrwyr sy'n cyflwyno apeliadau, a'u cynrychiolydd/cynrychiolwyr, yn ymddwyn mewn ffordd briodol. Os bydd y Brifysgol yn ystyried bod eu hymddygiad yn annerbyniol, gellir gohirio'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd a gellir cymryd camau o dan y [Rheoliadau Camymddygiad Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer](#) a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

Tystiolaeth

- 2.4 Fel arfer rhaid i bob apêl gael ei hategu gan dystiolaeth annibynnol ysgrifenedig berthnasol, neu ni fyddant yn cael eu derbyn.
- 2.5 Mae gan y Brifysgol yr hawl i wirio unrhyw dystiolaeth a gyflwynir. Os bydd myfyriwr yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth sy'n troi allan i fod yn ffug, gall ymchwiliad o dan Reoliadau Camymddwyn Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer a'r gweithdrefnau cysylltiedig ddechrau. Bydd yr apêl yn cael ei gohirio nes bod canlyniad yn cael ei gyrraedd o dan y rheoliadau amgen.

Gofynnir i fyfyrwyr i nodi unrhyw dystiolaeth sensitif wrth ei chyflwyno.

- 2.6 Mae'r Brifysgol yn cydnabod, gyda datblygiadau mewn technoleg fodern, ei bod yn haws gwneud recordiadau dirgel, h.y. recordiadau o gyfarfodydd neu sgysiau a wneir heb gydsyniad y cyfranogwyr. Pan wneir recordiadau o alwadau ffôn, mae'n debygol y bydd y gweithgaredd hwn yn torri Deddf Pwerau Ymchwilio 2024. Yn achos recordiadau o gyfarfodydd wyneb yn wyneb, mae'r deunydd a gafwyd yn debygol o gael ei ddal yn torri hawl Erthygl 8 y cyfranogwr (i fywyd preifat a theuluol) o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a deddfau diogelu data'r DU.

Yn ogystal, dim ond at y diben y cafodd ei wneud y dylid defnyddio recordiad ac ni ddylai fod ar gael i drydydd parti heb gydsyniad yr unigolyn y mae'n cyfeirio ato, oni bai bod rheswm cyfreithlon i wneud hynny.

Am y rhesymau hyn, dim ond mewn achosion, mewn amgylchiadau eithriadol, y bydd y Brifysgol yn caniatáu defnyddio recordiadau o'r fath.

Y ffeithiau a ystyrir yw:

- I ba raddau y mae'r dystiolaeth yn berthnasol i'r materion yn yr achos, gan gynnwys ystyried natur y dystiolaeth ac os oes tystiolaeth arall, fwy cymhellol ar gael
- I ba raddau y cafwyd y dystiolaeth yn anghyfreithlon neu fod ei ddefnydd fel arall yn ymyrryd â hawliau preifatrwydd.
- I ba raddau y gellir dibynnu ar y dystiolaeth o safbwynt technegol o ystyried ei bod yn bosibl ffugio deunydd wedi'i recordio. Gallai argaeledd trawsgrifiad a grëwyd yn annibynnol o unrhyw recordiad fod yn ddefnyddiol i fodloni'r gofyniad hwn.

Apeliadau gan grwpiau

- 2.7 Pan gaiff apêl ei chyflwyno gan grŵp o fyfyrwyr, dylid enwebu un aelod o'r grŵp fel y prif unigolyn cyswllt. Rhaid i bob aelod o'r grŵp gadarnhau yn ysgrifenedig eu bod am i'r unigolyn a enwebwyd weithredu yn y modd hwn a bod yr apêl yn adlewyrchu eu pryderon yn gywir. Bydd yr unigolyn cyswllt enwebedig yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr apêl ar ran y grŵp. Bydd pob aelod o'r grŵp yn cael ei hysbysu am ganlyniad yr apêl yn unigol.
- 2.8 Gall Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) benderfynu ei bod yn briodol rhannu apêl grŵp a gyflwynir mewn perthynas â mwy nag un asesiad neu garfan yn grwpiau lluosog neu ei thrin yn unigol.

Cyfrinachedd

- 2.9 Dim ond i aelodau staff priodol y bydd gwybodaeth a gyflenwir mewn apêl yn cael ei darparu a bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn unol â'r [Hysbysiad Preifatrwydd Gwaith Achos Myfyrwyr](#) ac fel y'i nodir yn y Cynllun Cyfathrebu ar gyfer apeliadau academiaidd.
- 2.10 Ni fydd y Brifysgol yn datgelu unrhyw wybodaeth i drydydd partion ynghylch ymchwiliadau a chanlyniadau achosion apêl myfyrwyr, oni bai bod eithriadau cyfreithiol o dan gyfreithiau diogelu data yn berthnasol neu fod y myfyriwr wedi rhoi awdurdod ysgrifenedig i'r Brifysgol wneud hynny.
- 2.11 Os oes gan fyfyrwyr unrhyw bryderon ynghylch datgelu gwybodaeth a fanylir yn eu hapêl, dylent gysylltu â'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

Tystysgrifau Gradd

- 2.12 Efallai y bydd gofyn i fyfyrwyr sy'n gymwys i dderbyn dyfarniad Prifysgol ac sy'n dymuno apelio ddychwelyd eu tystysgrif dyfarniad i'r Brifysgol os bydd y dosbarthiad yn newid o ganlyniad i apêl, er mwyn i dystysgrif newydd gael ei chyhoeddi. Os bydd newid i'r dyfarniad, gall y Brifysgol gynnig presenoldeb dilynol mewn seremoni raddio.

Statws myfyrwyr yn ystod apeliadau

- 2.13 Pan fydd canlyniad apêl yn penderfynu y dylai penderfyniad gwreiddiol Bwrdd Asesu newid, bydd hyn yn dod i rym pan gyhoeddir canlyniad yr apêl.
- 2.14 Bydd penderfyniad gwreiddiol Bwrdd Asesu yn sefyll tra bo apêl ar y gweill a dylai myfyrwyr baratoi i gwblhau unrhyw asesiadau ailsefyll neu ofynion dilyniant eraill.

Apeliadau a chwynion

- 2.15 Lle ystyrir bod apêl yn cynnwys elfennau o gŵyn, gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid cyfeirio'r apêl gyfan, neu elfennau ohoni, at y Rheoliadau Cwynion Myfyrwyr. Lle na ellir gwahanu apêl a chŵyn, bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn penderfynu a ddylai'r Brifysgol ymchwilio i'r materion a godwyd gyda'i gilydd. Yna bydd yr ymchwiliad yn llywio canlyniad yr apêl a'r gŵyn. Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn trafod unrhyw benderfyniadau a wneir ar statws yr apêl gyda'r gyfadran a'r myfyriwr.
- 2.16 Pan fydd myfyriwr yn cyflwyno cwyn tra bod ganddo apêl academiaidd ar agor, fel arfer caiff y gŵyn ei gohirio nes bod canlyniad yr apêl yn hysbys, oni bai na ellir gwahanu'r apêl a'r gŵyn (fel uchod).
- 2.17 Ni fydd apeliadau ynghylch annigonolrwydd goruchwyliaeth neu gefnogaeth yn ystod y cyfnod astudio yn cael eu derbyn fel sail dros apelio a rhaid eu codi fel cwyn.
- 2.18 Lle mae myfyriwr yn ystyried ei fod wedi cael ei drin mewn modd rhagfarnllyd, dylid codi'r materion hyn drwy'r Rheoliadau Cwynion Myfyrwyr a'u cefnogi â thystiolaeth.
- 2.19 Ni ellir defnyddio materion o dan y Rheoliadau Apeliadau Academiaidd fel sail ar gyfer cwyn wedi hynny, ac eithrio lle mae Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn ystyried ei bod yn briodol i ganlyniad apêl lywio ystyriaeth o gŵyn.

Ymddygiad afresymol

- 2.20 Ni fydd apeliadau y mae'r Brifysgol, ar ôl ystyriaeth gychwynnol, yn ystyried eu bod yn flinderus neu apeliadau sy'n cael eu gwneud gan fyfyrwr mewn modd afresymol o barhaus, yn cael eu hystyried a gallent arwain at gymryd camau o dan y Rheoliadau Camymddwyn Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Yn y cyd-destun hwn, mae 'afresymol o barhaus' yn golygu, er enghraifft, bod yr apêl yn cael ei gwneud mewn ffordd sy'n obsesiynol, yn niferus neu'n ailadroddus, neu y gellir ei ystyried yn aflonyddu. Gallai fod yn apêl sy'n cael ei gwneud mewn ffordd sy'n rhwystro gallu'r Brifysgol rhag bwrw ymlaen â'i phroses apeliadau. Mae 'apêl flinderus' yn un y mae'r Brifysgol yn ystyried ei bod wedi'i chynllunio i achosi tarfu neu annifyrrwch, neu sy'n gwneud galwadau am iawndal sydd heb bwrpas na gwerth difrifol.
- 2.21 Pan fydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn ystyried bod apêl yn cael ei gwneud mewn modd afresymol parhaus neu flinderus, ysgrifennir at y myfyrwr a'i hysbysu na fydd y Brifysgol yn ystyried yr apêl ymhellach. Rhoddir rhesymau am y penderfyniad hwn, a chyhoeddir Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol.

Cyfeirio at weithdrefnau eraill

- 2.22 Mewn rhai achosion, er enghraifft, lle mae bygythiad o niwed difrifol, neu lle mae arwyddion o drallod sylweddol, gall y Brifysgol benderfynu gohirio'r Weithdrefn hon hyd nes y ceir cyngor pellach, neu gall gyfeirio'r myfyrwr at y Weithdrefn Cymorth i Astudio. Mewn achosion o'r fath, gellir atal ystyried yr apêl hyd nes y ceir canlyniad yr ymchwiliadau o dan y [Weithdrefn Cymorth i Astudio](#).

Baich a safon y prawf

- 2.23 Mae baich y prawf yn penderfynu pwy sy'n gyfrifol am brofi mater. Ar gyfer apeliadau academiaidd, y myfyrwr sy'n gyfrifol am faich y prawf. Mae safon y prawf yn ôl pwysau tebygolrwydd, ei bod yn fwy tebygol na pheidio bod y materion a arweiniodd at yr apêl wedi codi.

Myfyrwyr rhyngwladol

- 2.24 Bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig pan gyflwynir apêl gan fyfyrwr rhyngwladol a noddur gan y Brifysgol ar fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwr. Dylid cyfeirio'r myfyrwr at y tîm cyfrifol i gael gwybodaeth am yr effaith y gallai canlyniad yr apêl ei chael ar ei fisa Haen 4/Llwybr Myfyrwr.

Addasiadau rhesymol

- 2.25 Mae'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr wedi ymrwmo i wneud addasiadau rhesymol i'w phrosesau lle nodir yr angen, er mwyn sicrhau profiad teg i fyfyrwyr. Os bydd myfyrwr yn hysbysu Gwaith Achos Myfyrwyr eu bod angen addasiadau rhesymol, trefnir cyfarfod gyda'r Gwasanaeth Anabledd i roi hyn ar waith. Bydd gan y myfyrwr y dewis o fynychu'r cyfarfod hwn; neu, os yw'n well ganddynt, byddant yn gallu cyflwyno ceisiadau ysgrifenedig i'w hystyried ymlaen llaw. Bydd canlyniad unrhyw drafodaeth ar addasiadau rhesymol yn cael ei gyfleu i'r myfyrwr ar gyfer cytundeb.

ADRAN TRI: CAMAU WRTH YMDRIN AG APELIADAU ACADEMAIDD

Mae tri cham i Weithdrefn Apeliadau Academaidd y Brifysgol, sef:

Cam 1 - Datrys yn gynnar

- 3.1 Bydd myfyrwyr yn gallu trafod unrhyw bryderon ynghylch eu canlyniadau yn anffurfiol. Argymhellir bod myfyrwyr yn trafod eu pryderon gyda'u Harweinydd Modiwl neu Arweinydd Cwrs yn y lle cyntaf os ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.

Cam 2 – Ystyriaeth gan y gyfadran

- 3.2 Bydd enwebai gan Ddeon y Gyfadran yn ystyried apêl ac yn rhoi ei ymateb i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr, a fydd yn hysbysu'r myfyriwr.

Cam 3 – Adolygu'r penderfyniad yng nghan 2

- 3.3 Bydd Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn pennu a oes achos amlwg dros gynnal adolygiad. Os bydd sail dros adolygu, bydd Panel Adolygu yn ymgynnull i ystyried yr achos.

Gellir cael manylion am y broses ym mhob cam yn y [Gweithdrefn Apeliadau Academaidd ar gyfer Cyrsiau a Addysgir](#) a'r [Weithdrefn Apeliadau Academaidd ar gyfer Graddau Ymchwil](#).

ADRAN PEDWAR: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL AR GYFER ADDYSG UWCH (OIA)

- 4.1 Os yw myfyriwr yn anhapus â chanlyniad y Weithdrefn hon, gall, yn dilyn cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gyflwyno cwyn i'r OIA.
- 4.2 Gellir cael manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael gwybodaeth a chynghor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

ADRAN PUMP: MONITRO

- 5.1 Bydd yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn monitro'r camau a gymerwyd mewn perthynas â rheoli apeliadau academaidd. Cyflwynir adroddiad i gyfarfod blynyddol y Grŵp Gwaith Achos Myfyrwyr.
- 5.2 Gall y Grŵp Gwaith Achos Myfyrwyr wneud argymhellion i'w hystyried gan y Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwellu, y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, y Bwrdd Academaidd a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil, fel y bo'n briodol, ar unrhyw faterion sy'n codi o ystyried apeliadau sy'n gofyn am newid y rheoliadau neu'r gweithdrefnau.